Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad o newidiadau sylweddol

## Cynllun Taliadau 2021/22

Mae'r datganiad hwn wedi'i gwblhau yn unol â gofynion gwybodaeth Rheolau'r Cynllun Taliadau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020.

## Adran 1 – Cynnydd sylweddol mewn biliau

**a) Cadarnhad o p'un a yw'r ymgymerwr yn disgwyl unrhyw gynnydd mewn biliau o fwy na 5% o'r flwyddyn flaenorol (ar gyfer math o gwsmer penodol gan dybio lefel gyson o ddefnydd) ac, os disgwylir cynnydd o'r fath:**

- faint o gynnydd a ddisgwylir;
- pa fathau o gwsmeriaid y mae'n debygol o effeithio arnynt;
- y strategaethau ymdrin a fabwysiadwyd gan y cwmni neu pam nad oedd y cwmni o'r farn bod angen strategaethau o'r fath.

Mae'r newidiadau yn y biliau terfynol ar gyfer cwsmeriaid preswyl a chwsmeriaid busnes sy'n codi o Gynllun Taliadau 2021/22 wedi cael eu hadolygu gan y Bwrdd.

Mae'r pandemig wedi rhoi pwysau ar filiau, a byddai wedi arwain at gynnydd o fwy na 5% ar filiau rhai cwsmeriaid. Mae'r Bwrdd wedi penderfynu cyflwyno cosbau Cymhellion Cyflawni Canlyniadau disgwyliedig sy'n codi o berfformiad 2020/21 fel rhan o'r strategaeth ymdrin (gweler tabl 1 isod).

### Tabl 1: Addasiadau Cymhellion Cyflawni Canlyniadau ar gyfer yr "Addasiad Blwyddyn Ddall" ar gyfer 2019/20 a'r perfformiad a ragwelir yn 2020/21

Roedd taliadau 2020/21 yn cynnwys addasiad refeniw o £2.6m ar gyfer cosbau Cymhellion Cyflawni Canlyniadau amcangyfrifedig a gododd yn 2019/20. Cyhoeddodd Ofwat y penderfyniad terfynol ar y Cymhellion Cyflawni Canlyniadau a'r Dull Cymell Rhagamcanu Refeniw Cyfanwerthu (WRFIM) ar gyfer 2019/20 yn ogystal ag ymarfer gwirio PR14 Totex a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2020. Mae'r tabl isod yn dangos addasiadau refeniw 2021/22 ar gyfer y rhain. Mae'r tabl hefyd yn dangos y cosbau Cymhellion Cyflawni Canlyniadau amcangyfrifedig ar gyfer perfformiad y flwyddyn bresennol sydd wedi cael eu cyflwyno'n gynnar. Rhoddwyd yr ymarfer gwirio a'r perfformiad a ragwelir ar waith mewn perthynas â'r rheolaethau refeniw cyfanwerthu a chawsant eu hymgorffori yn y lwfans refeniw a ddefnyddiwyd i bennu taliadau 2021/22.

| | Addasiad refeniw a gynhwysir yn nhaliadau 2020/21 | Addasiad blwyddyn ddall - WRFIM | Addasiad blwyddyn ddall - Totex | Cosbau Cymhellion Cyflawni Canlyniadau y flwyddyn bresennol a gyflwynwyd | Addasiad i Lwfans Refeniw 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **(Alldro £m)** | A | B | C | D | B+C+D-A |
| **Dŵr cyfanwerthu** | -2.1 | -0.1 | 0.7 | -6.2 | -3.5 |
| **Dŵr gwastraff cyfanwerthu** | -0.5 | -0.2 | -0.0 | -0.1 | 0.2 |

Gwnaeth y Bwrdd hefyd ystyried effaith y taliadau ar amrywiaeth o wahanol fathau o gwsmeriaid a gwnaeth benderfyniadau er mwyn ail-gydbwyso refeniw rhwng mathau o gwsmeriaid er mwyn sicrhau rhywfaint o sefydlogrwydd o ran biliau (yn unol â Rheol 8). Yn ogystal, ystyriodd y Bwrdd y ffaith nad yw gofyniad Ofwat i asesu'r effaith ar filiau gan dybio bod cwsmeriaid yn defnyddio dŵr yn gyson yn cynnig darlun cyflawn o effaith debygol y taliadau ar gwsmeriaid â mesurydd yn ystod cyfnodau o ddefnydd dŵr amrywiol iawn. Felly, gwnaeth y Bwrdd hefyd ystyried effaith debygol y taliadau ar y biliau gwirioneddol y gallai cwsmeriaid â mesurydd fod yn eu cael. Mae Tabl 2 yn dangos y biliau pe bai'r cwsmer yn defnyddio dŵr yn gyson, fel y rhagnodir gan reolau taliadau Ofwat, yn ogystal â'r biliau mesuredig ar gyfer cwsmer preswyl a oedd yn gweithio gartref yn ystod 2020/21, ac ar gyfer cwsmer dibreswyl a oedd ar gau yn ystod y cyfyngiadau symud[1] yn 2020/21. Y defnydd dŵr a ddefnyddiwyd yn yr enghraifft hon yw'r defnydd cyfartalog a dybir ar gyfer y grwpiau cwsmeriaid hyn wrth bennu taliadau 2021/22. Yn olaf, gwnaeth y Bwrdd adolygu effaith y taliadau ar gyfanswm biliau cwsmeriaid sy'n cael y ddau wasanaeth a chwsmeriaid sy'n cael un o'r gwasanaethau yn unig.

1 Ni chasglodd y Cwmni daliadau sefydlog gan nifer mawr o gwsmeriaid dibreswyl yn ystod cyfyngiadau symud y gwanwyn, ac felly ar gyfer y cwsmeriaid hyn, byddai'r gwahaniaeth rhwng 2019/20 a 2020/21 a rhwng 2020/21 a 2021/22 hyd yn oed yn fwy.

Ar ôl adolygu effaith wirioneddol tariffau 2021/22, roedd yn amlwg er bod elfen wastraff y bil yn cynyddu 5%, nad oedd y bil deuol y byddai'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yn ei gael yn cynyddu'n sylweddol. Daeth y Bwrdd i'r casgliad fod angen strategaeth ymdrin ar gyfer cwsmeriaid heb fesurydd sydd ond yn cael bil dŵr gwastraff gennym. Yn benodol, roedd angen gweithio gyda chyflenwyr dŵr trawsffiniol i roi gwybod i gwsmeriaid dŵr gwastraff heb fesurydd am y cynnydd o 5% yn elfen wastraff eu bil. Bydd y Cwmni yn sicrhau bod y cwsmeriaid hyn yn ymwybodol o'r effaith bosibl ar eu bil a bydd yn gweithio gyda nhw i leihau'r effaith, gan gynnwys argymell eu bod yn ystyried newid i daliadau mesuredig.

### Tabl 2: Biliau a geir gan gwsmeriaid â mesurydd

Mae'r tabl isod yn dangos bil cwsmer â mesurydd gan ddefnyddio'r defnydd cyfartalog ar gyfer y tair blynedd a ddangosir a'r newidiadau i'r bil y byddai'r cwsmer yn ei gael o gymharu â'r newidiadau i'r bil a gyfrifir gan dybio bod y cwsmer yn defnyddio dŵr yn gyson, fel y rhagnodir gan Ofwat.

Ar gyfer y bil gwirioneddol, mae defnydd dŵr y cwsmer preswyl yn uwch yn 2020/21 i adlewyrchu effaith gweithio gartref, ac mae defnydd dŵr y cwsmer dibreswyl yn is o ganlyniad i'r ffaith bod llawer ohonynt wedi gorfod cau yn sgil y cyfyngiadau symud.

| | Bil Mesuredig (£ - alldro) | | | Newid (%) | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 19/20 - 20/21 | 20/21 - 21/22 |
| **Cwsmer preswyl** | | | | | |
| **Dŵr** | | | | | |
| Bil gwirioneddol | 153 | 161 | 145 | 5% | -10% |
| Rheolau taliadau Ofwat | 154 | 152 | 145 | -1% | -4% |
| **Dŵr gwastraff** | | | | | |
| Bil gwirioneddol | 220 | 235 | 235 | 6% | 0% |
| Rheolau taliadau Ofwat | 221 | 224 | 235 | 1% | 5% |
| **Y ddau wasanaeth** | | | | | |
| Bil gwirioneddol | 374 | 396 | 380 | 6% | -4% |
| Rheolau taliadau Ofwat | 375 | 377 | 380 | 0% | 1% |
| **Cwsmer dibreswyl** | | | | | |
| **Dŵr** | | | | | |
| Bil gwirioneddol | 642 | 546 | 623 | -15% | 14% |
| Rheolau taliadau Ofwat | 611 | 634 | 623 | 4% | -2% |
| **Dŵr gwastraff** | | | | | |
| Bil gwirioneddol | 793 | 678 | 824 | -15% | 22% |
| Rheolau taliadau Ofwat | 757 | 780 | 824 | 3% | 6% |
| **Y ddau wasanaeth** | | | | | |
| Bil gwirioneddol | 1,435 | 1,224 | 1,447 | -15% | 18% |
| Rheolau taliadau Ofwat | 1,368 | 1,413 | 1,447 | 3% | 2% |

Bydd y cap ar filiau i gwsmeriaid HelpU a gafodd y tariff cyn 1 Awst 2020 a chwsmeriaid WaterSure Cymru yn cynyddu 5% i sicrhau bod y tariffau hyn yn parhau i fod ar gael i'r nifer mwyaf posibl o gwsmeriaid.

Mae Tabl 3 a 4 yn dangos effaith y taliadau a gyhoeddwyd ar sampl gynrychioliadol o gwsmeriaid yn unol â Gofynion Gwybodaeth y Rheolau taliadau.

**Tabl 3: Biliau enghreifftiol – Cwsmeriaid preswyl**

Mae'r tabl isod yn dilyn Gofynion Gwybodaeth Rheolau'r Cynllun Taliadau ac yn dangos y bil sy'n codi o Gynllun Taliadau 2021/22 ar gyfer amrywiaeth o gwsmeriaid preswyl nodweddiadol ac yn dangos yr amrywiant o fil y flwyddyn flaenorol (gan dybio bod cwsmeriaid â mesurydd yn defnyddio dŵr yn gyson).

| | 2021/22 | 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm Bil (£)** | **Cyfanswm Bil (£)** | **Amrywiant (£)** | **Amrywiant (%)** |
| **Preswyl** | | | | |
| **Cwsmeriaid Gwasanaeth Deuol** | | | | |
| **Gwasanaeth Deuol heb Fesurydd** | | | | |
| GA Isel | 440 | 432 | 8 | 2% |
| GA Canolig | 595 | 583 | 11 | 2% |
| GA Uchel | 762 | 748 | 14 | 2% |
| **Gwasanaeth Deuol â Mesurydd** | | | | |
| Defnydd isel o ddŵr | 282 | 279 | 3 | 1% |
| Defnydd canolig o ddŵr | 368 | 364 | 4 | 1% |
| Defnydd uchel o ddŵr | 533 | 529 | 5 | 1% |
| **Tâl Gwasanaeth Unffurf Gwasanaeth Deuol** | | | | |
| Gwasanaeth Llawn | 612 | 600 | 12 | 2% |
| **Gwasanaeth Deuol heb Fesurydd – dŵr budr yn unig** | | | | |
| GA Isel | 389 | 382 | 6 | 2% |
| GA Canolig | 543 | 534 | 9 | 2% |
| GA Uchel | 711 | 698 | 12 | 2% |
| **Gwasanaeth Deuol â Mesurydd – dŵr budr yn unig** | | | | |
| Defnydd isel o ddŵr | 248 | 246 | 2 | 1% |
| Defnydd canolig o ddŵr | 328 | 326 | 2 | 1% |
| Defnydd uchel o ddŵr | 482 | 481 | 1 | 0% |
| **Tâl Gwasanaeth Unffurf Gwasanaeth Deuol – dŵr budr yn unig** | | | | |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf – Dŵr budr yn unig | 560 | 551 | 10 | 2% |
| **Tariffau Cymdeithasol** | | | | |
| HelpU – Cwsmeriaid ar y tariff cyn 1 Awst 2020 | 221 | 211 | 10 | 5% |
| HelpU – Cwsmeriaid ers 1 Awst 2020 | 250 | 250 | 0 | 0% |
| WaterSure Cymru | 360 | 343 | 17 | 5% |
| **Cwsmeriaid Un Gwasanaeth** | | | | |
| **Dŵr yn unig** | | | | |
| GA canolig heb fesurydd | 236 | 240 | -4 | -2% |
| Defnydd canolig o ddŵr â mesurydd | 140 | 147 | -7 | -4% |
| **Dŵr Gwastraff yn Unig – gwasanaeth carthffosiaeth llawn** | | | | |
| GA canolig heb fesurydd | 359 | 343 | 16 | 5% |
| Defnydd canolig o ddŵr â mesurydd | 228 | 218 | 10 | 5% |
| **Dŵr Gwastraff yn Unig – dŵr budr yn unig** | | | | |
| GA canolig heb fesurydd | 307 | 294 | 14 | 5% |
| Defnydd canolig o ddŵr â mesurydd | 188 | 179 | 8 | 5% |

## Tabl 4: Biliau enghreifftiol – Cwsmeriaid dibreswyl

Mae'r tabl isod yn dangos y bil sy'n codi o Gynllun Taliadau 2020/21 ar gyfer amrywiaeth o gwsmeriaid busnes nodweddiadol ac yn dangos yr amrywiant o fil y flwyddyn flaenorol (gan dybio bod cwsmeriaid â mesurydd yn defnyddio dŵr yn gyson).

| | 2021/22 | 2020/21 | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm Bil (£)** | **Cyfanswm Bil (£)** | **Amrywiant (£)** | **Amrywiant (%)** |
| **Dibreswyl** | | | | |
| **Gwasanaeth Deuol heb Fesurydd** | | | | |
| GA Canolig | 748 | 729 | 20 | 3% |
| **Gwasanaeth Deuol Safonol â Mesurydd** | | | | |
| Defnydd canolig o ddŵr | 1,763 | 1,734 | 29 | 2% |
| | | | | |
| **Dŵr yn unig** | | | | |
| **Tariffau Diwydiannol** | | | | |
| Band 1 (50 Ml – 100 Ml) | 90,818 | 91,653 | -835 | -1% |
| Band 2 (100 Ml – 250 Ml) | 182,658 | 184,490 | -1,832 | -1% |
| Band 3 (250 Ml – 500 Ml) | 356,818 | 360,148 | -3,330 | -1% |
| Band 4 (500 Ml – 1000 Ml) | 658,374 | 661,153 | -2,778 | -0% |
| **Dŵr Anyfadwy** | | | | |
| Band A – Dŵr Heb ei Drin | 1,813 | 1,848 | -35 | -2% |
| Band A – Triniaeth Rannol | 1,318 | 1,343 | -24 | -2% |
| Band B – Dŵr Heb ei Drin | 187,635 | 189,481 | -1,846 | -1% |
| Band B – Triniaeth Rannol | 997,728 | 1,008,235 | -10,506 | -1% |
| | | | | |
| **Dŵr Gwastraff yn Unig** | | | | |
| GA Canolig | 448 | 427 | 22 | 5% |
| Defnydd cyfartalog o ddŵr | 1,049 | 1,000 | 49 | 5% |
| **Elifion Masnach** | | | | |
| Cyfanswm Bil Elifion Masnach (<100Ml) | 10,362 | 10,138 | 224 | 2% |
| Cyfanswm Bil Elifion Masnach (>100Ml) | 390,101 | 371,242 | 18,859 | 5% |

## Adran 2 – Newidiadau yn y polisi codi taliadau

**(b) Manylion unrhyw newidiadau sylweddol yn y polisi codi taliadau gan y cwmni o'r flwyddyn flaenorol.**

## Newidiadau 2020/21 – y diweddaraf

### Adolygiad o adennill taliadau draenio priffyrdd

Mae'r adolygiad o adennill taliadau draenio priffyrdd wedi'i gwblhau. Pennwyd tâl preswyl ar gyfer 2021/22 o £8.81 i gwsmeriaid â mesurydd a chwsmeriaid heb fesurydd, £28.16 i gwsmeriaid dibreswyl ac £11,602.74 i gwsmeriaid diwydiannol sy'n gollwng mwy na 100Ml y flwyddyn. Caiff costau draenio priffyrdd eu hadennill drwy elfen sefydlog biliau cwsmeriaid.

### Adolygiad o adennill taliadau dŵr wyneb

Cafodd y polisi ar gyfer codi tâl am ddŵr wyneb ei adolygu ar gyfer taliadau 2019/20 a'i newid i sicrhau y caiff y costau eu hadennill drwy elfen sefydlog biliau cwsmeriaid â mesurydd a heb fesurydd. Byddai newid strwythur y tâl mesuredig ar unwaith er mwyn ei roi ar waith bryd hynny wedi arwain at effaith sylweddol ar gwsmeriaid dŵr budr yn unig sy'n cymryd llawer o ddŵr. Felly, dim ond yn rhannol y cafodd ei roi ar waith er mwyn sicrhau bod modd cwblhau'r gwaith o gysoni'r gyfradd gyfeintiol yn llawn yn y blynyddoedd i ddod. Ystyriwyd y byddai'r baich a allai ddeillio o roi hyn ar waith ar gyfer taliadau 2021/22 yn rhy fawr, ac felly ni chafodd ei roi ar waith yn llawn. Cafodd hyn ei drafod â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

### Trosglwyddo Cymorth Dŵr Cymru

Mae'r tariff trosglwyddo carthffosiaeth yn unig wedi cynyddu 5% yn unol â'r cynllun trosglwyddo. Y disgwyl oedd y byddai'r broses o symud y cwsmeriaid carthffosiaeth yn unig hyn i dariff llawn WaterSure Cymru wedi'i chwblhau erbyn 2022. Cafodd y broses ei hymestyn er mwyn sicrhau na fydd y cwsmeriaid hyn yn gweld cynnydd sylweddol yn eu bil. Trafodwyd y cynnig â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Cafodd unrhyw gwsmer a oedd yn gymwys ar gyfer HelpU ei drosglwyddo i'r cynllun fel rhan o'r strategaeth ymdrin wreiddiol.

## Newidiadau 2021/22

Nid oes unrhyw newidiadau o ran y polisi codi taliadau ar gyfer Cynllun Taliadau 2021/22.